**Cyngor Sir Penfro**

**CAIS AM GYMERADWYO SAFLE I FOD YN LLEOLIAD AR GYFER PRIODASAU YN UNOL AG ADRAN 26(1)(bb) O DDEDDF PRIODAS 1994 Y DDEDDF PRIODASAU (CYPLAU O'R UN RHYW) 2013 A PHARTNERIAETHAU SIFIL YN UNOL AG ADRAN 6 (3A)(a) O DDEDDF PARTNERIAETH SIFIL 2004.**

Mae'n rhaid i berchennog neu un o ymddiriedolwyr y safle wneud y cais hwn. Os yw'n llwyddo, bydd y gymeradwyaeth yn perthyn i'r ymgeisydd. Wedi ei gwblhau, dylid ei anfon ymlaen at y Cofrestrydd Arolygol, Y Swyddfa Gofrestru, 1 Cherry Grove, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 2NZ gyda'r ffi briodol (Atodiad A) yn daladwy i Gyngor Sir Penfro.

**1.** Rwyf yn gwneud cais am gymeradwyo'r safle sydd wedi ei enwi yn eitem 2 tros y dudalen ar gyfer gweinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil.

**2.** Rwyf yn cysylltu 3 chopi o gynllun o'r safle sy'n dangos pob ystafell y bwriedir cynnal priodasau neu bartneriaethau sifil ynddi.

**3.** Rwyf yn deall -

(a) y gwneir archwiliad o'r safle i weld a yw'n addas cyn ei gymeradwyo ac, os yw'r cais hwn yn llwyddo, y gellid ei archwilio wedi hynny;

(b) bydd y cyngor yn rhoi hysbysiad cyhoeddus o'r cais ar wefan Pembrokeshire.gov am dair wythnos ar gyfer gwrthwynebu

(c) y bydd y gymeradwyaeth, os ceir, am gyfnod o dair blynedd, pryd y gellid ei ddirymu; a,

(ch) bod rhaid i'r safle fodloni'r awdurdod lleol o ran rhagofalon tân a darpariaethau ar gyfer iechyd a diogelwch.

**4.** Rwyf yn datgan-

(a) fy mod wedi darllen a deall yr wybodaeth sydd ar y ffurflen hon ac yn Atodiadau A, B ac C;

(b) nad yw'r adeilad yn swyddfa gofrestru nac yn safle crefyddol; ac, building is not a

(c) fy mod wedi holi'r awdurdod cynllunio ynglŷn ag a oes angen caniatâd cynllunio ac yn amgáu tystiolaeth ei fod yn fodlon y gellir defnyddio'r safle ar gyfer priodasau neu bartneriaethau sifil.

**5.** Rwyf yn datgan hefyd, os bydd cymeradwyaeth wedi ei rhoi-

(a) y bydd y safle ar gael yn rheolaidd i'w ddefnyddio gan y cyhoedd ar gyfer un ai gweinyddu priodasau neu gofrestru partneriaethau sifil; ac,

(b) y byddaf yn cydymffurfio â'r amodau safonol (Atodiad A) ac unrhyw amodau lleol sydd ynghlwm â rhoi'r gymeradwyaeth.

**1.** Enwau llawn a chyfeiriad preifat yr ymgeisydd.
Os yw cwmni cyfyngedig yn gwneud y cais rhowch gyfeiriad y swyddfa gofrestredig a lle bynnag y bo'n wahanol nodwch hefyd brif gyfeiriad masnachu'r Cwmni.

**2.** Enw, cyfeiriad post a rhif ffôn y safle y mae'r cais hwn ar ei gyfer.

**3.** Disgrifiwch ba fath o safle sydd yng nghwestiwn 2 (e.e. gwesty, tŷ bonedd, llety dinesig) a'r prif fodd y defnyddir ef yn rheolaidd a dibenion eraill.

**4.** Ai'r sawl neu'r cwmni sydd wedi ei enwi yng nghwestiwn 1 yw meddiannydd y safle?

**5.** Os ydych wedi ateb 'Nage' i gwestiwn 4 uchod a bod meddiannydd arall, rhowch ei enw / ei henw / eu henwau a chyfeiriad(au) os gwelwch yn dda.

**6.** Nodwch yma'r nifer fwyaf o bobl y mae eich asesiad o risg tân yn caniatáu iddi fod ym mhob ystafell y bwriedir cynnal seremonïau ynddi.

**7.** A oes gan y safle ar hyn o bryd y fantais o fod ag unrhyw drwydded a roddwyd o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a allai fod yn berthnasol i'r cais hwn (e.e. ar gyfer darparu adloniant rheoleiddiedig). Os oes, cysylltwch gopi os gwelwch yn dda.

**Llofnod yr ymgeisydd:** ………………………………. **Dyddiad:** ……………………

**Buddiant yn y safle:** ……………………………………………………………………….

**Cyfeiriad ar gyfer llythyru a rhif ffôn ar gyfer cysylltu:**

**Cyngor Sir Penfro**

**Atodiad A**

**NODIADAU YNGLŶN Â'R GOFYNION CYN Y GELLIR RHOI CYMERADWYAETH**

Y ffi ar gyfer y cais hwn yw £1325/£900 ac mae'n rhaid ei hanfon gyda'r cais at y Cofrestrydd Arolygol, Y Swyddfa Gofrestru, 1 Cherry Grove, Hwlffordd, Sir Benfro SA61 2NZ

Mae'n rhaid i berchennog neu un o ymddiriedolwyr y safle wneud y cais. Pan yw'n cael ei wneud ar ran cwmni cyfyngedig dylai fod gyda datganiad ar wahân o enwau a chyfeiriadau pob cyfarwyddwr.

Mae'n rhaid i'r safle gyflawni'r gofynion safonol canlynol yn Atodiad 1 i'r Rheoliadau:

**1.** Gyda sylw i'w brif ddiben, lleoliad, adeiladwaith a chyflwr, mae'n rhaid i'r safle fod, ym marn yr awdurdod, yn lleoliad gweddaidd ac urddasol ar gyfer y gweithrediadau.

**2.** Mae'n rhaid i'r safle fod ar gael yn rheolaidd i'r cyhoedd i'r diben o weinyddu priodasau neu gofrestru (ffurfio) partneriaethau sifil.

**3.** Mae'n rhaid i'r safle fod â mantais y cyfryw ragofalon tân ag a allai fod o fewn rheswm yn ofynnol gan yr awdurdod, wedi ymgynghori â'r awdurdod tân/tân ac achub, ac unrhyw ddarpariaeth resymol arall ar gyfer iechyd a diogelwch pobl sy'n gweithio ar neu'n ymweld â'r safle fel y gwêl yr awdurdod yn briodol.

**4.** Mae'n rhaid i'r safle beidio â bod -

(a) yn safle crefyddol fel y mae wedi ei ddiffinio gan adran 6(2) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004;*

(b) yn swyddfa gofrestru, ond nid yw'r paragraff hwn yn berthnasol i safle sy'n cynnwys swyddfa gofrestru cyn belled nad yw'r ystafell sydd i'w chymeradwyo yr un ystafell â'r hon sydd yn swyddfa gofrestru.

**5.** Mae'n rhaid bod modd gwybod trwy ddisgrifiad bod yr ystafell neu'r ystafelloedd lle cynhelir y gweithrediadau (priodas neu bartneriaeth sifil) yn rhan neilltuol o'r safle.

** Ystyr "safle crefyddol" yw safle a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf i ddibenion crefyddol, neu sydd wedi ei ddefnyddio i'r diben hwnnw ac nad yw wedi hynny wedi ei ddefnyddio'n unig neu'n bennaf i ddibenion eraill.*

Wrth ystyried a yw'r safle yn addas i fod yn lleoliad, bydd yr awdurdod yn ystyried y Canllawiau canlynol gan y Cofrestrydd Cyffredinol:

**1.** Bwriad deddfau sy'n ymwneud â "safle cymeradwy" yw caniatáu cynnal gweithrediadau yn rheolaidd mewn gwestai, tai bonedd, neuaddau dinesig a safleoedd tebyg heb fod yn groes i egwyddorion sylfaenol y gyfraith Seisnig a bwriad y Senedd i gynnal natur ddefodol yr achlysur.

**2.** Diffiniad y term "safle" yn Rheoliad 2(1) yw ei fod yn adeiledd parhaol nad oes modd ei symud sy'n cynnwys o leiaf un ystafell neu unrhyw long neu gwch arall sydd wedi ei angori neu ei glymu'n barhaol. Ni fyddai unrhyw safle nad yw'r diffiniad hwn yn ei gynnwys, fel yr awyr agored, pabell fach neu fawr neu unrhyw adeiledd tros dro arall a bron bob math o drafnidiaeth, yn gymwys i'w gymeradwyo. Yn ychwanegol at hynny, mae gofynion yn Atodiad 1 y mae'n rhaid eu cyflawni cyn y bydd modd rhoi cymeradwyaeth.

**3.** Mae'n rhaid i'r safle fod yn lleoliad gweddaidd ac urddasol ar gyfer y gweithrediadau, y mae'n rhaid eu cynnal mewn rhan adnabyddadwy a neilltuol o'r safle hwnnw. Byddai'r prif ddefnydd a wneir o adeilad yn peri iddo fod yn anaddas pe gallai'r defnydd hwnnw ddiraddio'r gweithrediadau neu ddwyn anfri arnynt.

**4.** Mae'n rhaid i'r safle beidio â bod yn safle crefyddol fel y mae hynny wedi ei ddiffinio gan adran 6(2) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004. Safle yw hwnnw a ddefnyddir yn unig neu'n bennaf i ddibenion crefyddol neu sydd wedi ei ddefnyddio'n unig neu'n bennaf i ddibenion crefyddol ac nad yw wedi ei ddefnyddio wedi hynny i ddibenion eraill. Byddai adeilad sydd wedi ei ardystio ar gyfer addoliad cyhoeddus yn y dosbarthiad hwnnw fel y byddai capel mewn tŷ bonedd neu hosbis. Fodd bynnag, gallai safle y mae grŵp crefyddol yn cwrdd ynddo o bryd i'w gilydd fod yn addas os yw'r meini prawf eraill wedi eu cyflawni.

**5.** Mae'n rhaid i'r safle beidio â bod yn unrhyw ran o swyddfa gofrestru ar y cynllun y mae'r awdurdod wedi ei gyflwyno ac y mae'r Cofrestrydd Cyffredinol wedi ei gymeradwyo yn unol â Deddf Gwasanaeth Cofrestru 1953. Gellir cymeradwyo unrhyw ystafelloedd ar yr un safle â'r swyddfa gofrestru nad ydynt ar y cynllun hwn, e.e. siambr gyngor yn yr un neuadd dref, ond ni ellir cymeradwyo ystafell mewn swyddfa gofrestru. Fodd bynnag, gall awdurdod bennu ei ffi am fod mewn priodas neu bartneriaeth sifil ar safle cymeradwy yn gymaint â'r ffi sydd wedi ei rhagnodi ar gyfer priodas neu bartneriaeth sifil mewn swyddfa gofrestru.

**6.** Gellir defnyddio'r safle i weinyddu priodasau a chofrestru partneriaethau sifil ac mae'n rhaid iddo fod ar gael yn rheolaidd i'r cyhoedd i'w ddefnyddio ar gyfer y ddau ddigwyddiad. Yn unol â thelerau Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cyfeiriadedd Rhywiol) 2007 (a ddaeth i rym y 30 Ebrill 2007) mae'n groes i'r gyfraith bod unrhyw un sy'n ymwneud â darparu nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau i'r cyhoedd yn gwahaniaethu yn erbyn rhywun sy'n ceisio defnyddio'r nwyddau, cyfleusterau neu

wasanaethau hynny ar sail cyfeiriadedd rhywiol y person hwnnw. Os bydd daliwr cymeradwyaeth yn methu â chaniatáu defnyddio safle ar gyfer priodas a phartneriaeth sifil, neu sy'n darparu lle, gwasanaethau neu gyfleusterau ar gyfer y naill ond nid y llall, yna gellid dwyn achos cyfreithiol yn ei erbyn o ganlyniad. Yr un modd â deddfwriaeth arall ynglŷn â chydraddoldeb, byddai'n rhaid i'r rhai o dan sylw ddwyn yr achos hwn yn erbyn daliwr y gymeradwyaeth. Nid oes gan yr awdurdod lleol a roddodd y gymeradwyaeth bwerau i weithredu neu ymyrryd, oni bai, wrth gwrs, ei fod yn ddaliwr y gymeradwyaeth.

**7.** Bydd y gofyniad bod rhaid i safle fod ar gael yn rheolaidd i'w ddefnyddio gan y cyhoedd yn atal tŷ preifat rhag ei gymeradwyo.

**8.** Mae'n rhaid gweinyddu priodasau/partneriaethau sifil ar safleoedd gyda drysau agored, yr hyn y mae'r Cofrestrydd Cyffredinol yn dehongli ei fod yn golygu nad oes dim i fod i rwystro'r cyhoedd rhag mynd i mewn i dystio i'r briodas/partneriaeth sifil a mynegi gwrthwynebiadau cyn neu yn ystod y seremoni.

**9.** Gellir dilyn priodasau/partneriaethau sifil ar safleoedd cymeradwy gan ddathliad, coffâd neu fendith y mae'r pâr yn ei ddewis, cyn belled nad yw'n seremoni briodas grefyddol a'i fod ar wahân i'r seremoni sifil. Fodd bynnag, pe byddai bendith grefyddol yn dilyn seremonïau priodas/partneriaeth sifil yn rheolaidd ar safle penodol, neu pe ystyrid hyn yn rhan o'r gwasanaeth a gynigid ar y safle, dichon felly y byddai cysylltiad crefyddol a fyddai'n groes i'r gofynion ac a fyddai'n peri bod rhaid i'r awdurdod lleol ystyried diddymu'r gymeradwyaeth.

Mae'n rhaid hefyd i'r safle gyflawni'r gofynion canlynol a bennir gan yr awdurdod:

(a) Mae'n rhaid i ystafell addas ar wahân fod ar gael i'r cofrestrydd siarad gyda chyplau cyn y seremoni.

(b) Mae'n rhaid i doiledau digonol fod ar gael.

(c) Mae'n rhaid i le parcio ar wahân fod ar gael ar gyfer ceir staff cofrestru ar y diwrnod.

(ch) Mae'n rhaid gallu cynnal seremoni'r briodas/partneriaeth sifil heb ymyrraeth gan unrhyw sŵn o'r un man arall ar y safle.

(d) Lle bynnag y bo modd, mae'n rhaid darparu'n ddigonol ar gyfer mynediad gan bobl ag anableddau.

(e) Cyfrifoldeb y perchennog neu ymddiriedolwr yw symud a chlirio confetti.

(f) Ni cheir gwerthu bwyd na diod, na'u bwyta na'u hyfed yn ystafell(oedd) y briodas/partneriaeth sifil am un awr cyn ac yn ystod y seremoni.

**Cyngor Sir Penfro**

**Atodiad B**

## YR AMODAU SYDD I'W CYSYLLTU Â CHANIATÂU CYMERADWYAETH

Mae'n rhaid i'r awdurdod gysylltu'r amodau safonol canlynol o Atodiad 2 i'r Rheoliadau gydag unrhyw gymeradwyaeth. Ystyr gweithrediadau yw gweinyddu priodas neu gofrestru partneriaeth sifil ac nid yw'n cyfeirio at unrhyw weithgareddau eraill ar y safle.

**1.** Mae'n rhaid i ddaliwr y gymeradwyaeth sicrhau bod rhywun bob amser sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r amodau hyn ("y sawl sy'n gyfrifol") a bod galwedigaeth y sawl sy'n gyfrifol, ei hynafedd, ei swydd o gyfrifoldeb mewn perthynas â'r safle, neu ffactorau eraill (ei "gymhwyster"), yn dangos ei fod mewn sefyllfa i sicrhau y cydymffurfir â'r amodau hyn.

**2.** Bydd y sawl sy'n gyfrifol neu, os yw'n absennol, dirprwy gyda'r cymhwyster priodol y mae wedi ei benodi, ar gael ar y safle am o leiaf awr cyn a thrwy gydol pob un o'r gweithrediadau.

**3.** Mae'n rhaid i'r daliwr roi gwybod i'r awdurdod –

(a) ei enw a'i gyfeiriad ar unwaith pan ddaw'n ddaliwr cymeradwyaeth o dan reoliad 7(2); ac,

(b) enw, cyfeiriad a chymhwyster y sawl sy'n gyfrifol ar unwaith pan benodir person cyfrifol newydd.

**4.** Mae'n rhaid i'r daliwr roi gwybod ar unwaith i'r awdurdod am unrhyw newid yn unrhyw un o'r canlynol -

(a) trefn a chynllun y safle, fel y mae wedi ei ddangos ar y cynllun a gyflwynwyd gyda'r cais a gymeradwywyd, neu o ran y modd y defnyddir y safle;

(b) enw neu gyfeiriad post cyflawn y safle cymeradwy;

(c) disgrifiad yr ystafell neu'r ystafelloedd lle bydd y gweithrediadau yn digwydd;

(ch) enw a chyfeiriad daliwr y gymeradwyaeth; ac,

(d) enw, cyfeiriad neu gymhwyster y sawl sy'n gyfrifol.

**5.** Mae’n rhaid i’r safle cymeradwy fod ar gael bob amser rhesymol i’w archwilio gan yr awdurdod.

**6.** Mae’n rhaid arddangos ym mhob mynedfa gyhoeddus i’r safle hysbysiad addas sy’n nodi bod y safle wedi ei gymeradwyo ar gyfer y gweithrediadau ac sy’n enwi a dangos y ffordd at yr ystafell lle bydd y gweithrediadau yn digwydd, a hynny am awr cyn a thrwy gydol y gweithrediadau.

**7.** Ni cheir gwerthu unrhyw fwyd na diod, na’i fwyta na’i yfed, yn yr ystafell lle mae’r gweithrediadau yn digwydd am awr cyn ac yn ystod y gweithrediadau hynny.

**8.** Mae’n rhaid cynnal pob gweithrediad mewn ystafell y nodwyd mai honno yw’r un sydd i’w defnyddio i’r diben hwnnw ar y cynllun a gyflwynwyd gyda’r cais a gymeradwywyd.

**9.** Mae’n rhaid i’r ystafell lle bydd y gweithrediadau yn digwydd fod ar wahân i unrhyw weithgaredd arall ar y safle yr un adeg a’r gweithrediadau.

**10.** Mae’n rhaid i’r trefniadau ar gyfer y gweithrediadau a’u cynnwys fod wedi eu cymeradwyo o flaen llaw gan gofrestrydd arolygol y dosbarth, neu awdurdod cofrestru’r ardal, fel y bo hynny, lle mae’r safle cymeradwy.

**11.** (1) Ni chaiff unrhyw weithrediadau a gynhelir ar safle cymeradwy fod yn grefyddol eu naws.

(2) Yn benodol, ni chaiff y gweithrediadau :

(a) gynnwys darnau allan o wasanaeth priodas crefyddol neu o destunau crefyddol cysegredig;

(b) fod dan arweiniad gweinidog crefyddol neu arweinydd crefyddol arall;

(c) gynnwys defod neu gyfres o ddefodau crefyddol;

(ch) gynnwys emynau neu lafarganau crefyddol eraill; neu

(d) gynnwys unrhyw fath o addoli.

(3) Ond caiff y gweithrediadau gynnwys darlleniadau, caneuon neu gerddoriaeth sy’n cynnwys cyfeirio wrth fynd heibio at dduw neu dduwdod mewn cyd-destun nad yw’n grefyddol yn y bôn.

(4) I’r diben hwn, ystyrir mai rhan o’r gweithrediadau fydd unrhyw ddeunydd a ddefnyddir wrth gyflwyno’r gweithrediadau, mewn unrhyw egwyl rhwng rhannau ohonynt, neu wrth ddod â hwy i ben.

**12.** Mae’n rhaid caniatáu i’r cyhoedd ddod i mewn, neb godi tâl am hynny, i unrhyw weithrediadau ar safle cymeradwy.

**13.** Caiff unrhyw gyfeiriad at gymeradwyaeth safle ar unrhyw arwydd neu hysbysiad, neu ar unrhyw bapur ysgrifennu neu gyhoeddiad, neu mewn unrhyw hysbyseb, ddatgan bod y safle wedi ei gymeradwyo gan yr awdurdod i fod yn lleoliad ar gyfer priodas yn unol ag adran 26(1)(bb) o Ddeddf Priodas 1994, a ffurfio partneriaethau sifil yn unol ag adran 6(3A)(a) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 ond ni chaiff ddatgan nac awgrymu bod yr awdurdod, y Cofrestrydd Arolygol neu unrhyw swyddog neu weithwyr cyflogedig i'r naill neu'r llall yn argymell y safle neu ei gyfleusterau.

**14.** Os bydd enw'r safle cymeradwy yn newid wedi rhoi'r dystysgrif ar gyfer priodas neu ddogfen y bartneriaeth sifil, ond cyn y gweithrediadau, bydd hen enw'r safle cymeradwy fel y mae wedi ei gofnodi yn y dystysgrif ar gyfer priodas neu ddogfen y bartneriaeth sifil, yn dal i fod yn ddilys tra bydd yn bodoli, i ddiben y gweithrediadau.

**Cyngor Sir Penfro**

**Atodiad C**

**GWYBODAETH YCHWANEGOL**

ADNEWYDDU AC AILSEFYDLU

**1.** Caiff y daliwr wneud cais am adnewyddu cymeradwyaeth pan yw’r gymeradwyaeth bresennol yn llai na deuddeg mis o’i diwedd. Bydd cais am adnewyddu a wneir yn ystod y cyfnod hwn yn estyn y gymeradwyaeth bresennol hyd nes bydd y cais wedi ei drin yn derfynol. Bydd adnewyddiad yn ymestyn o’r dyddiad y daw’r gymeradwyaeth bresennol i ben.

**2.** Os bydd y daliwr yn methu â gwneud cais am adnewyddu cyn y dyddiad y daw i ben a bod y gymeradwyaeth yn dod i ben, bydd yn cael ei hailsefydlu trwy gais am adnewyddu a wneir o fewn mis i’r dyddiad y daw i ben a bydd yn parhau hyd nes bydd y cais wedi ei drin.

DIDDYMU

**3.** Caiff yr awdurdod ddiddymu cymeradwyaeth os yw’n fodlon, wedi ystyried unrhyw sylwadau gan y daliwr, bod y defnydd a wneir o’r safle neu ei adeiladwaith wedi newid fel nad oes modd cyflawni’r gofynion safonol neu leol neu fod y daliwr wedi methu â chydymffurfio ag un neu ragor o’r amodau safonol neu leol sydd ynghlwm â’r gymeradwyaeth.

**4.** Caiff y Cofrestrydd Cyffredinol gyfarwyddo’r awdurdod i ddiddymu cymeradwyaeth os, i’w dyb ef/hi, ac wedi ystyried unrhyw sylwadau gan y daliwr, oes toriadau wedi digwydd o’r gyfraith sy’n ymwneud â phriodas neu bartneriaeth sifil ar y safle cymeradwy. Ni fydd adolygiad o hyn gan yr awdurdod.

**5.** Pan yw cymeradwyaeth wedi ei diddymu mae’r rheoliadau yn gofyn bod y cyn ddaliwr yn rhoi gwybod i unrhyw gyplau a oedd wedi trefnu priodi neu gofrestru partneriaeth sifil ar y safle.

ADOLYGIADAU

**6.** Caiff unrhyw ymgeisydd geisio adolygiad gan yr awdurdod lleol o’i benderfyniad i wrthod rhoi cymeradwyaeth, cysylltu amodau lleol, gwrthod adnewyddu cymeradwyaeth neu ddiddymu cymeradwyaeth.

**7.** Mae’n rhaid cynnal yr adolygiad gan swyddog, pwyllgor neu is-bwyllgor gwahanol i’r un a wnaeth y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn. Gall y panel adolygu gadarnhau’r penderfyniad, ei ddirymu neu ei amrywio gan osod amodau newydd neu ychwanegol.

**8.** Gall yr awdurdod godi ffi ychwanegol am adolygu ei benderfyniad i wrthod rhoi cymeradwyaeth, cysylltu amodau lleol neu wrthod adnewyddu cymeradwyaeth.

COFRESTRU

**9.** Cedwir manylion safle cymeradwy ar gyfer archwiliad cyhoeddus gan yr awdurdod, eu copïo’n lleol a’u hanfon at y Cofrestrydd Cyffredinol a fydd yn eu cyhoeddi.

**Cyngor Sir Penfro**

**Atodiad D**

**CANLLAWIAU I'R RHAI SY'N DYMUNO PRIODI AR SAFLE CYMERADWY**

**1.** Cyn gynted ag y bydd pâr wedi gwneud trefniadau tros dro ar gyfer eu priodas ar safle cymeradwy dylid eu cynghori i gysylltu â'r Cofrestrydd Arolygol yn y Swyddfa Gofrestru, Cherry Grove, Hwlffordd, SA61 2NZ. Rhif ffôn 01437 775176

**2.** Heb fod y Cofrestrydd Arolygol a Chofrestrydd yn bresennol, nid oes modd cynnal priodas ac mae unrhyw drefniadau i ddefnyddio'r safle yn dibynnu'n llwyr ar iddynt fod ar gael. Mae'n hanfodol felly bod y pâr yn trefnu o flaen llaw gyda'r Cofrestrydd Arolygol er mwyn iddi fod yn bresennol yn eu priodas arfaethedig cyn gynted ag y bydd trefniant wedi ei wneud. Bydd ffi i'w thalu am y presenoldeb hwn.

**3.** Bydd rhaid hefyd i'r pâr roi rhybudd o briodas i Gofrestrydd Arolygol y dosbarth(iadau) lle maent yn byw. Rhaid rhoi'r rhybudd hwn yn bersonol gan y naill a'r llall ac mae'n ddilys am ddeuddeg mis. Dylai'r pâr, felly, fynd i'r swyddfa (swyddfeydd) cofrestru lle maent yn byw cyn gynted ag y bydd modd rhoi rhybudd. Mae cyfnod o aros o bymtheg diwrnod wedi rhoi'r rhybudd cyn y gellir cynnal y briodas.

**4.** Os yw'r naill neu'r llall o dan reolaeth mewnfudo, bydd rhagor o weithdrefnau i'w dilyn cyn y bydd modd rhoi rhybudd o briodas. Gall y Cofrestrydd Arolygol lleol roi rhagor o gyngor ynglŷn â'r gweithdrefnau hyn.

**5.** Dylid rhybuddio'r pâr bod unrhyw drefniadau a wneir i gynnal priodas ar y safle cymeradwy yn dibynnu ar:

(a) bresenoldeb y Cofrestrydd Arolygol a chofrestrydd ar gyfer y dosbarth lle mae'r safle; a,
(b) bod y Cofrestrydd(Cofrestrwyr) Arolygol y rhoddwyd y rhybudd o briodas iddo/iddi/iddynt yn rhoi'r awdurdod neu'r awdurdodau ar gyfer y briodas.

**6.** Pan roddir rhybudd mewn dosbarth cofrestru gwahanol i'r hwn y cynhelir y briodas ynddo, bydd rhaid i'r pâr ddod i nôl tystysgrif y Cofrestrydd Arolygol ar gyfer y briodas cyn y seremoni a sicrhau ei danfon i'r Cofrestrydd sydd i fod yn bresennol yn y seremoni.

**7.** Dylid cynghori'r pâr mai seremoni sifil, heb fod yn grefyddol, y gall y Cofrestrydd Arolygol ei chaniatâu. Mae'n rhaid cytuno ynghylch cynnwys y seremoni o flaen llaw gyda'r Cofrestrydd Arolygol a fydd yn bresennol yn y seremoni.

**8.** Mae unrhyw hawlfreintiau ynghylch cerddoriaeth, darlleniadau ac ati a ganiateir yn y seremoni yn fater i'r pâr a daliwr y gymeradwyaeth.

## Cyngor Sir Penfro

**Atodiad E**

### CANLLAWIAU I’R RHAI SY’N DYMUNO COFRESTRU PARTNERIAETH SIFIL AR SAFLE CYMERADWY

**1.** Cyn gynted ag y bydd pâr wedi gwneud trefniadau tros dro ar gyfer eu partneriaeth sifil ar safle cymeradwy dylid eu cynghori i gysylltu â’r Cofrestrydd Arolygol yn y Swyddfa Gofrestru, Cherry Grove, Hwlffordd, SA61 2NZ. Rhif ffôn 01437 775176

**2.** Heb fod y Cofrestrydd Partneriaethau Sifil yn bresennol, nid oes modd cofrestru partneriaeth sifil ac mae unrhyw drefniadau i ddefnyddio’r safle yn dibynnu’n llwyr ar iddi/iddo fod ar gael. Mae’n hanfodol felly bod y pâr yn trefnu o flaen llaw gyda’r Cofrestrydd Partneriaethau Sifil er mwyn iddi fod yn bresennol yn eu priodas arfaethedig cyn gynted ag y bydd trefniant wedi ei wneud. Bydd ffi i’w thalu am y presenoldeb hwn.

**3.** Bydd rhaid hefyd i’r pâr roi rhybudd o briodas i berson ag awdurdod yn y dosbarth(iadau) lle maent yn byw. Rhaid rhoi’r rhybudd hwn yn bersonol gan y naill a’r llall ac mae’n ddilys am ddeuddeg mis. Dylai’r pâr, felly, fynd i’r swyddfa (swyddfeydd) cofrestru lle maent yn byw cyn gynted ag y bydd modd rhoi rhybudd. Mae cyfnod o aros o bymtheg diwrnod wedi rhoi’r rhybudd cyn y gellir cynnal y bartneriaeth sifil.

**4.** Os yw’r naill neu’r llall o dan reolaeth mewnfudo, bydd rhagor o weithdrefnau i’w dilyn cyn y bydd modd rhoi rhybudd o bartneriaeth sifil. Gall yr awdurdod cofrestru lleol roi rhagor o gyngor ynglŷn â’r gweithdrefnau hyn.

**5.** Dylid rhybuddio’r pâr bod unrhyw drefniadau a wneir i gynnal partneriaeth sifil ar y safle cymeradwy yn dibynnu ar:

(a) bresenoldeb y Cofrestrydd Partneriaethau Sifil ar gyfer y dosbarth lle mae’r safle; a,
(b) bod yr awdurdod cofrestru ar gyfer yr ardal lle mae’r safle yn rhoi’r atodlen ar gyfer y bartneriaeth sifil.

**6.** Dylid cynghori’r pâr mai seremoni sifil, heb fod yn grefyddol, y gall y Cofrestrydd Partneriaethau Sifil ei chaniatâu. Mae’n rhaid cytuno ynghylch cynnwys y seremoni o flaen llaw gyda’r Cofrestrydd Partneriaethau Sifil a fydd yn bresennol yn y seremoni.

**7.** Mae unrhyw hawlfreintiau ynghylch cerddoriaeth, darlleniadau ac ati a ganiateir yn y seremoni yn fater i’r pâr a daliwr y gymeradwyaeth.

**Atodiad F**

**(a)**